**RHEOLWR CYNHYRCHU**
**Theatr Clwyd**
Disgrifiad Swydd

Teulu: Creu Theatr
Yn gyfrifol am: Dirprwy Reolwr Cynhyrchu
Yn adrodd i: Pennaeth Cynhyrchu

**Pwrpas y Swydd**
Mae'r Rheolwr Cynhyrchu yn gyfrifol am reoli'r gwaith o gynhyrchu cynyrchiadau mewnol Theatr Clwyd. Bydd yn defnyddio ei lefelau sylweddol o wybodaeth a phrofiad arbenigol i gefnogi'r Pennaeth Cynhyrchu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i bob rhanddeiliad.

**Cyfrifoldebau Allweddol**

**Cyffredinol**
- Rheoli'r gwaith o gynhyrchu cynyrchiadau Theatr Clwyd yn ôl yr angen.
- Cydlynu a goruchwylio safon uchel o gyflwyno golygfeydd, propiau, gwisgoedd, goleuadau, sain a phob agwedd arall ar gynhyrchu ffisegol o fewn briffiau, cyllidebau ac amserlenni y cytunwyd arnynt.
- Bod yn atebol am ganlyniadau a gwneud penderfyniadau ar ran y Tîm Cynhyrchu a'r timau technegol a chynhyrchu.
- Defnyddio dull creadigol a blaengar o ddatrys problemau i sicrhau bod y tîm yn cydweithio'n hapus, yn effeithiol ac yn gefnogol o fewn y sefydliad cyfan.
- Rheoli'r swyddi cynhyrchu llawrydd sy'n rhan o sioeau mewnol yn ôl yr angen.
- Bod yn gyfrifol am gyllid, rheoli ymchwil ac adrodd ariannol ar gyfer cyllidebau cynhyrchu Theatr Clwyd a dirprwyo elfennau o'r cyfrifoldeb cyllideb cynhyrchu i gydweithwyr yn ôl yr angen.

**Rheoli Cynhyrchu**
- Sicrhau bod pob tîm creadigol, cwmnïau sy'n ymweld ac artistiaid yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu bod yn ymgysylltu a'u bod yn cael eu cefnogi yn yr adeilad ac yn derbyn y lefel uchaf o gefnogaeth dechnegol bob amser.
- Cysylltu â'r tîm creadigol gwadd i bennu'r anghenion technegol ar gyfer cynyrchiadau a chynghori ar ba bosibiliadau technegol y gall Theatr Clwyd eu cynnig.
- Cefnogi'r Pennaeth Cynhyrchu wrth gysylltu â rheolwyr cynhyrchu llawrydd a darparu cefnogaeth yn ôl yr angen.
- Rheoli wythnosau cynhyrchu, gan sicrhau bod yr ymarferion a'r cyfarfodydd cynhyrchu yn rhedeg yn esmwyth.
- Rheoli cyllidebau cynhyrchu.
- Rheoli'r cynhyrchu ar gyfer gwaith Theatr Clwyd ar daith yn ôl yr angen.
- Yn achos prosiectau sy'n cael eu cydgynhyrchu gyda Theatr Clwyd ond yn cael eu rheoli gan theatr bartner, chwarae rôl gydlynu rhwng tîm cynhyrchu'r theatr bartner ac Adran Gynhyrchu Theatr Clwyd a chynnig cefnogaeth i'r theatr bartner yn ôl yr angen.

**Offer**
- Llogi neu brynu offer arbenigol a / neu gymorth technegol yn ôl yr angen ar gyfer cynyrchiadau.

- Arwain timau technegol a chynhyrchu wrth storio a chynnal eitemau stoc ar ffurf dodrefn, eiddo a lleoliadau yn ôl yr angen.

**Diogelwch**
- Cynnal a hyrwyddo arferion gwaith diogel yn unol â gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch.
- Cwblhau asesiadau risg a datganiadau dull a chydymffurfio â rheoliadau CDM fel maent yn berthnasol i gynyrchiadau theatr.

**Cynulleidfaoedd a Seddau**
- Gweithio gyda'r Pennaeth Cynhyrchu a'r Uwch Reolwr Profiad i ddarparu a chynnal amgylchedd diogel i gynulleidfaoedd.
- Rhoi gwybodaeth gyson i'r tîm Cyfathrebu a Chyfrannu am nifer y seddi ar gyfer pob cynhyrchiad a chyflwyno cynlluniau eistedd manwl gywir cyn gynted â phosibl.

**Rheolaeth**
- Bod yn rheolwr llinell ar y Dirprwy Reolwr Cynhyrchu.
- Trefnu a goruchwylio staff llawrydd, tymor penodol ac achlysurol a fydd yn aelodau penodol o bob tîm cynhyrchu, er enghraifft staff Rheoli Llwyfan.

**Arall**
- Darparu'r lefel uchaf o ofal a gwasanaeth i'r gynulleidfa bob amser.
- Cynrychioli a hyrwyddo'r sefydliad yn gadarnhaol ar bob lefel.
- Hyrwyddo a gwella cynaliadwyedd amgylcheddol drwy gynllunio a rheoli pob cynhyrchiad yn effeithiol, gan ddefnyddio Llyfr Gwyrdd y Theatr, ac ar draws pob elfen o'r rôl.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl cais rhesymol y Pennaeth Cynhyrchu.

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**

- Dyfnder sylweddol o sgil a phrofiad mewn rheoli cynhyrchu mewn theatr gynhyrchu a / neu gymhwyster lefel gradd / cyfatebol mewn pwnc perthnasol.
- Profiad clir o reoli timau.
- Profiad clir o reolaeth ariannol gan gynnwys adrodd cyllidebol ac ariannol.
- Sgiliau cyfathrebu a thrafod rhagorol.
- Sylw rhagorol i fanylder.
- Sgiliau cynllunio a threfnu rhagorol, gyda'r gallu i reoli nifer o ffrydiau gwaith a gweithio dan bwysau.
- Gwybodaeth ragorol am bob disgyblaeth theatr dechnegol a chynhyrchu.
- Sgiliau drafftio rhagorol a phrofiad helaeth o ddefnyddio meddalwedd CAD.
- Gwybodaeth ymarferol drylwyr am ddeddfwriaeth drwyddedu ac Iechyd a Diogelwch.
- Ymrwymiad i ragoriaeth artistig.

**Dymunol**

- Gwybodaeth weithredol dda a phrofiad ymarferol o Adobe CS (Photoshop, Illustrator) a dealltwriaeth o brint digidol.
- Cymhwyster Cymorth Cyntaf.
- Gwybodaeth am fyd y theatr, dawns a ffurfiau celf eraill yn y DU yn gyffredinol a Chymru yn benodol.
- Cymraeg ysgrifenedig a llafar.
- Trwydded yrru lawn a glân.